

**COFNODION CYFARFOD AGORED BWRDD YMDDIRIEDOLAETH GIG
GWASANAETHAU AMBIWLANS CYMRU A GYNHALIWYD DYDD IAU
29 MEDI 2015 YNG NGHANOLFAN TECHNOLEG AMGEN,
MACHYNLLETH, POWYS, SY20 9AZ – HEB EU CADARNHAU**

**AELODAU'R BWRDD YN
BRESENNOL:**

| | | |
|-----------------------|---|-------------------------|
| Mick Giannasi | Cadeirydd y Bwrdd | MG |
| Tracy Myhill | Prf Weithredwr | TM |
| Emrys Davies | Cyfarwyddwr Anweithredol | ED |
| Yr Athro Kevin Davies | Cyfarwyddwr Anweithredol | KD |
| Pam Hall | Cyfarwyddwraig Anweithredol | PH |
| Judith Hardisty | Cyfarwyddwraig Gweithlu a Datblygu Cyfundrefnol | JH |
| Dr Brendan Lloyd | Cyfarwyddwr Meddygol | |
| Patsy Roseblade | Cyfarwyddwraig Cyllid ac ICT | BL |
| David Scott | Cyfarwyddwr Anweithredol | PR |
| Martin Woodford | Cyfarwyddwr Anweithredol ac Is-gadeirydd | DSc MW |

**CYNRYCHIOLWYR AR
FWRDD YR
YMDDIRIEDOLAETH:**

| | | |
|-----------------|--|------------------------|
| Hugh Bennett | Pennaeth Cynllunio a Pherfformiad | HB |
| Hannah Evans | Cyfarwyddwraig Strategaeth a Chynllunio (Interim) | HE NH |
| Nigel Heal | Cynrychiolydd Staff | LH |
| Leanne Hawker | Arweinydd Partneriaid mewn Gofal Iechyd | WH |
| Wendy Herbert | Cyfarwyddwraig Gynorthwyol Ansawdd a Nyrsio | EH |
| Estelle Hitchon | Cyfarwyddwraig Gynorthwyol, Swyddfa'r Prif Weithredwr | AJ RJ |
| Andrew Jenkins | Cyfarwyddwr Clinigol Cynorthwyol | SO |
| Roger John | Cynrychiolydd Staff | DSh |
| Steve Owen | Swyddog Rheolaeth Gorfforaethol | CV |
| Dawn Sharp | Ysgrifennydd Corfforaethol | |
| Claire Vaughan | Cyfarwyddwraig Trawsnewid Gweithlu Gysylltiol | |

YMDDIHEURIADAU

| | |
|-----------------|---------------------------------|
| Sara Jones | Cyfarwyddwraig Ansawdd a Nyrsio |
| James Mycroft | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Bleddyn Roberts | Cynrychiolydd Staff |

ARSYLLWYR

Monica Atkins
Debbie Bateman
Joe-Aan Duthie (Cyflwynydd
Stori'r Claf)
Lois Hough
Melfyn Hughes
Rhian James
Lee-Anne Leyshon
Eleanor Morgan
Jane Palin
Kim Tovey
Barbara Wallace

53/15 CROESO A DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a rhybuddiodd fod y cyfarfod yn cael ei recordio ar dâp.

PENDERFYNWYD: nodi'r diweddariad.

54/15 DIWEDDARIAD Y PRIF WEITHREDWR

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at y gwelliant mewn perfformiad a diolchodd i'r holl bersonél am eu cyfraniad. Roedd am ddiolch hefyd i bawb oedd wedi'i chefnogi ers ei phenodi - roedd hyn wedi bod yn sylweddol.

PENDERFYNWYD: nodi'r diweddariad.

55/15 MATERION GWEITHDREFNOL

Cofnodion

Agored – 30 Gorffennaf 2015

Cofnod 44/15 – Pwynt bwled un, ail frawddeg, dileu'r gair 'oddi wrth'

Cofnod 49/15 - Tudalen 9 - Ychwanegu'r frawddeg ganlynol ar ddiwedd y paragraff cyntaf. 'Croesawodd yr Is-gadeirydd ddiweddglo cynnar i drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru'

Cofnod 44/15 – Pwynt bwled dau – Dileu'r geiriau 'Roedden nhw'n gweithio ar y Cynllun Cyflenwi Lleol'

Log Gweithredu

Trafododd yr Aelodau weithrediadau unigol o fewn y Log Gweithredu a oedd wedi'i ddiweddarau yn ôl yr angen.

PENDERFYNWYD:

- (1) **Nodi datganiad sefydlog Mr Emrys Davies fel aelod wedi ymddeol o UNITE;**
- (2) **Cadarnhau Cofnodion sesiynau Agored a Chaëedig Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2015 fel cofnod cywir, o wneud y newidiadau a ddisgrifiwyd uchod;**
- (3) **Gweithredu'r addasiadau i'r log gweithredu fel y cyfeiriwyd; a**
- (4) **chymeradwyo'r busnes brys a gymeradwywyd gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad gyda Chyfarwyddwyr Anweithredol eraill ers y cyfarfod diwethaf - 7/2015, cyflog y Prif Weithredwr a'r Gyfarwyddwraig Cyllid ac ICT.**

56/15 STORI CLAF

Cyflwynodd Arweinydd Partneriaid mewn Gofal Iechyd, Joe-Aan Duthie, parafeddyg gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, i'r cyfarfod.

Tynnodd Joe-Aan sylw'r Bwrdd at ddigwyddiadau 27 Mai 2015 pan oedd yn gweithio ar y sifft nos gyda'i chydweithiwr Darren. Yn ystod y sifft, derbyniodd y ddau un alwad werdd i fynd at wraig oedd yn geni baban, yn ôl y neges. Yn ystod y siwrne, derbyniwyd galwad arall i ddweud wrth y criw bod y claf wedi geni'r babi. Cafodd yr alwad ei huwchraddio i flaenoriaeth galwad goch.

Ar ôl cyrraedd y cartref, aeth y criw i fyny'r grisiau a gweld y claf. Daeth yn amlwg yn sydyn fod y sefyllfa glinigol yn hynod ddifrifol ac yn bygwth bywyd y fam a'r babi yn y groth. Roedd Joe-Aan wedi penderfynu galw Ysbyty Singleton, er nad hwn oedd y llwybr naturiol i'r gwasanaethau ambiwlans ei ddilyn a rhoi gwybodaeth am gyflwr Claire. Y llwybr arferol fyddai mynd â Claire i Ysbyty Treforys. Fodd bynnag, o ddefnyddio ei greddf, sgiliau, gallu proffesiynol a phrofiad fel parafeddyg, anwybyddodd Joe-Aan y llwybr arbennig hwn a sicrhodd fod Claire yn cael ei chludo i Ysbyty Singleton.

Cyrhaeddodd Claire Ysbyty Singleton mewn llai nac awr o amser yr alwad gyntaf. O fewn munudau i gyrraedd, aethpwyd â Claire i'r theatr lle ganwyd mab iddi. Yn ddiweddar, mae Joe-Aan wedi cyfarfod Claire a'i mab - y ddau yn dod yn eu blaen yn dda.

Roedd hon yn stori hynod oedd yn amlygu sgiliau a dyfeisgarwch parafeddygon yr Ymddiriedolaeth. Yn ddiweddarach, dywedodd y llawfeddyg oedd wedi cynnal y llawdriniaeth ar Claire ei bod yn bosibl na fyddai Claire wedi goroesi oni bai am ymyrraeth Joe-Aan. Roedd yn amlygu bod parafeddygon yn gwneud y math hwn o benderfyniad achub bywyd yn rheolaidd.

Diolchodd y Cadeirydd i Joe-Aan am y stori hyfryd a hynod lwyddiannus hon ac roedd wedi bod yn ddefnyddiol cael ei rhannu gyda'r Ymddiriedolaeth. Dywedodd hefyd ar ran y Bwrdd ei bod yn gredyd mawr i'r gwasanaethau ambiwlans.

Croesawodd y Cadeirydd sylwadau gan yr Aelodau:

- Sut gallai unrhyw wersi a ddysgwyd gael eu defnyddio i helpu hyfforddiant y

Parafeddygon yn y dyfodol. Mae rôl y Parafeddyg wedi datblygu'n fwy amrywiol a dylid annog parafeddygon i ystyried llwybrau amgen ac i 'feddwl y tu allan i'r bocs'

- A ddylid cael 'aide memoire' neu gofrestr a fyddai'n cynnwys gwybodaeth werthfawr o safbwynt amrywiol ddigwyddiadau a'u gwneud ar gael i griwiau ambiwlans allu cyfeirio atyn nhw. Dywedodd Joe-Aan wrth y Bwrdd fod ffolder yn cynnwys gwybodaeth o'r tu allan i'r ardal o fewn ardal Abertawe wedi'i dechrau ac roedd ar gael i griwiau yn yr ardal honno ac yn ardal Caerdydd.

Roedd hyn wedi bod yn risg broffesiynol a bwriadus oedd i'w ganmol, sut gall yr Ymddiriedolaeth berswadio a chefnogi criwiau i wneud y penderfyniadau cywir? Roedd criwiau'n cyfnewid storïau a phrofiadau'n barod ac yn trafod llwybrau'n rheolaidd. Roedd profiad a gwybodaeth yn sylfaenol yn y broses gwneud penderfyniadau gan fod criwiau'n gorfod penderfynu ar y llwybr cywir i'r claf gan ei ei dymheru bob amser gyda diogelwch a lles y claf yn flaenllaw.

- Pe na bai'r penderfyniad hwn wedi'i wneud, byddai Claire wedi cael ei chludo i ysbyty Treforys ond byddai hwn wedi bod yn lle amhriodol i'r claf arbennig hwn. Dylai'r stori hon fod yn rhan o'r ysgogiad i yrru rôl y parafeddygon ymlaen i'r 21fed ganrif fel ymarferydd sy'n meddwl.

Daeth y Prif Weithredwr i'r casgliad y dylai'r Ymddiriedolaeth ddarparu ei holl ymarferwyr gyda'r hyder, gwroldeb a'r diwylliant i'w galluogi i wneud y peth cywir. Mae'r diwylliant ofnus sy'n bodoli weithiau angen ei droi wyneb i waered. Mae'r stori hon wedi bod yn enghraifft berffaith o wneud y peth cywir.

PENDERFYNWYD: nodi stori'r claf.

57/15 ADRODDIAD PERFFORMIAD INTEGREDIG

Dywedodd y Pennaeth Cynllunio a Pherfformiad, **HB** wrth gyflwyno'r adroddiad Perfformiad Integredig, fod perfformiad wedi gwella fis ar ôl mis ers mis Ionawr. Cyflwynodd **HB** grynodedb o'r ffactorau canlynol i'r Bwrdd oedd wedi effeithio'n bositif ar berfformiad A8 ym mis Gorffennaf:

- Llai o alw
- Nifer cynyddol o oriau staff ar gael drwy oramser
- Brysbennu galwadau
- Lleihau absenoldeb salwch staff

Atgoffodd yr Ymddiriedolaeth am nifer o brosiectau trawsnewid allweddol oedd yn digwydd a fyddai'n cael effaith positif ar berfformiad y dyfodol oedd yn cynnwys:

- 111
- Model clinigol newydd
- Pin Digidol
- Ymatebwyr Cyntaf y Gymuned

Ychwanegodd **HB** ei bod yn bwysig cynnal y ffocws ar brofiad claf, diogelwch claf, dangosyddion clinigol a'r gweithlu. Dywedodd ymhellach am y meysydd canlynol a

rhoddodd drosolwg ar ffurf diweddariad ar bob un:

- Canlyniadau positif oddi wrth Arolwg Cenedlaethol Cymru
- Digwyddiadau Anffafriol Difrifol (SAI)
- Deilliannau Clinigol
- Atal a Rheoli Heintiau
- Absenoldeb Salwch
- Gwasanaethau Gofal Cleifion

Daeth **HB** i'r casgliad bod y perfformiad presennol wedi'i seilio ar ystod o ymyraethau tactegol tymor byr oedd yn gwella perfformiad tra, mewn gwirionedd, yn aros am ddechrau rhaglen fawr o brosiectau ar draws y pum cam llwybr gofal ambiwlans a ddylai alluogi rhaglen gynaliadwy mewn perfformiad yn y tymor hwy. Roedd angen i'r Ymddiriedolaeth gynnal ffocws cryf ar gyflenwi'r prosiectau hyn a phob agwedd o ddiogelwch cleifion, yn benodol archwilio gorsafoedd, cerbydau ac arferion atal a rheoli heintiau.

Mynegwyd y sylwadau canlynol gan yr Aelodau:

- O safbwynt ail-frysbennu galwadau, rhoddwyd eglurhad a sicrwydd nad oedd y galwadau'n cael eu brysbennu ddwy waith ond roedd yn frysbennu eilaidd a allai fod yn achos o newid cod. Cytunodd **HB** y byddid yn cael ystyriaeth arall i sicrhau bod eglurhad o'r derminoleg yn gywir.
- Perthynas gweithlu – trosiant staff – eglurodd y Gyfarwyddwraig Gweithlu ac OD fod y ffigyrau a ddangosir o fewn yr adroddiad wedi eithrio'r staff hynny oedd wedi'u hyrwyddo. Fodd bynnag, roedd yn cynnwys staff oedd wedi ymddeol ac wedi ail-ymuno'n rhan amser fyddai'n eu dangos fel rhai wedi gadael ac ymuno.
- A oedd hi'n bosibl i ddangos o fewn yr adroddiad wybodaeth am gwynion a'r gwersi a ddysgwyd ohonyn nhw. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol.
- Cyn cau unrhyw SAI's – a fyddai'n bosibl i'r Pwyllgor QuEST graffu ar y digwyddiadau hynny?
- Deilliannau clinigol – sut oedden nhw'n mynd i adrodd amdanyn nhw yn y dyfodol a sut byddai'r mesurau allweddol yn cael eu monitro i sicrhau bod cleifion yn derbyn y pecyn clinigol cywir. Eglurodd Dr Brendan Lloyd fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chofnodi'n electronig. Roedd unrhyw wersi'n cael eu hadrodd yn ôl i'r Timau Clinigol drwy amrywiol sianeli o fewn y sefydliad.

Cynhaliodd yr Aelodau drafodaeth fanwl am sut gallai'r Bwrdd gynnal trosolwg o ddigwyddiadau unigol a chael mwy o wybodaeth fanwl i sicrhau craffu'r digwyddiadau mwyaf critigol.

PENDERFYNWYD:

(1) nodi'r adroddiad; a

(2) bod yr Ysgrifennydd Corfforaethol yn trefnu trafodaeth ar sut gallai'r Bwrdd sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau anffafriol difrifol yn cael ei chynnwys ar Agenda Pwyllgor nesaf Gweithgor y Cadeiryddion.

58/15 CYNLLUNIAU TYMOR CANOL INTEGREDIG

Cymeradwyo IMTP 2015/16 (blaenoriaethau blwyddyn un)

Dywedodd y Cadeirydd, wrth gyflwyno Hannah Evans, Cyfarwyddwraig Cynllunio a Pherfformiad Interim, fod hwn yn ddam hanfodol o waith yn y dyfodol a'i bod yn bwysig bod yr Ymddiriedolaeth ar ac yn aros ar y llwybr yn y dyfodol.

Cyflwynodd y Gyfarwyddwraig Cynllunio a Pherfformiad Interim, **HE**, yr adroddiad i'r Bwrdd gan ailadrodd pwysigrwydd critigol cyflawni cynllun cymeradwy blwyddyn y Bwrdd am eleni a chynllun cymeradwy tair blynedd y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn nesaf. Amlygodd **HE** y meysydd allweddol canlynol i sylw'r Bwrdd lle gwelwyd gwelliant sylweddol:

- Adran y gweithlu
- Alinio i'r model pum cam
- Cyllid – gan gynnwys y cynllun gweithlu a recriwtio

O safbwynt cymeradwyo'r cynllun, roedd wedi'i gefnogi'n llwyr gan Brif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwlans a Phrif Weithredwyr y Byrddau Iechyd Lleol. Os byddai'r Bwrdd yn cymeradwyo'r cynllun, byddai'n cael ei anfon ymlaen drannoeth at Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo

Cyfeiriodd y Gyfarwyddwraig Cyllid ac ICT **PR**, at y rhagdybiaethau ariannol o fewn yr adroddiad. Eglurodd **PR** fod y rhagdybiaethau ariannol ar hyn o bryd yn cynnwys rhagolwg i ddiwedd y flwyddyn oedd yn rhagdybio bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i ddefnyddio trosamser gyda chymhelliant a defnyddio adnoddau ychwanegol o'r sector preifat i gynyddu'r gallu. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gyson gyda Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru yn cyflwyno cynnydd tybiedig mewn incwm a fyddai'n diwallu unrhyw orwariant posibl. Mae'r cynllun ariannol yn awr yn adlewyrchu'r gwaith a wnaed wrth ddatblygu'r cynllun gweithlu. Roedd y Comisiynydd yn awyddus i'r Ymddiriedolaeth fynegi o fewn y cynllun y defnydd o'r ddau swm ychwanegol o arian a dderbyniwyd gan yr Ymddiriedolaeth ac roedd y ffigyrau hyn wedi'u dangos yn glir o'i fewn.

Pwysleisiodd y Prif Weithredwr **TM**, ei bod yn bwysig nodi na fyddai'r £4.4m y cyfeiriwyd ato o fewn y cynllun yn cael ei ailadrodd a'i fod yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gwella'r perfformiad y flwyddyn bresennol. O safbwynt y dyfodol, byddai cymeradwyaeth LIC i'r cynllun hefyd yn cynnwys cymeradwyo'r holl ragdybiaethau ariannol o'i fewn.

Dywedodd y Cadeirydd petai'r cynllun yn cael ei gymeradwyo, byddai rhywfaint o gred i'r sicrwydd o orwario dros gyllideb yr Ymddiriedolaeth ar ddechrau'r flwyddyn ac y byddai'n profi i fod yn gam sylweddol ymlaen.

Cododd yr Aelodau'r materion canlynol:

- O safbwynt cynllun blwyddyn, y consensws cyffredinol oedd ei fod yn Sylfaen

cadarn i'r dyfodol

- O safbwynt cyflenwi ar gyfer cleifion a'r cyhoedd, Cam 3 (Dewch i'm gweld), nid oedd y disgrifiad yn ymddangos yn gyson gyda'r categorïau Coch, Ambr a Gwyrdd. Eglurodd **HE** y bydden nhw'n gwneud mwy o waith i ddelio â'r mater hwn.
- Tabl 14, Cynllun Cyfalaf, cyfeiriodd **PR** at y Dosbarthu gyda chymorth Cyfrifiadur ac eglurodd y byddai'n cael ei symud i mewn i gynllun cyfalaf 2016/17.

Cynnydd wrth Gyflenwi'r Portffolio Newid 15/16

Cyflwynodd y Gyfarwyddwraig Cynllunio a Pherfformiad Interim **HE**, grynodedb i'r Aelodau ac roedd yn sicrhau bod cynnydd wedi'i wneud yn y maes hwn ers yr adroddiad diwethaf.

Cynnydd yn Natblygiad yr IMTP 2016/17

Cafodd y Bwrdd drosolwg gan y Gyfarwyddwraig Cynllunio a Pherfformiad Interim **HE**, o safbwynt diweddar datblygu IMTP 2016/17. Derbyniodd y Bwrdd wybodaeth bellach am y ddau weithdy oedd wedi'u cynnal i gynnwys yr ystod lawn o staff o fewn yr Ymddiriedolaeth gydag un yn cael ei gynnal yn y De a'r llall yn y Gogledd.

Mynegodd yr Aelodau'r sylwadau canlynol:

- A oedd unrhyw anghysonderau mawr wedi codi rhwng y Gogledd a'r De o safbwynt y manylion a'r trafodaethau yn y ddau sesiwn gweithdy? Dywedodd **HE** fod cysondeb cyffredinol ar y cyfan.

Cynhaliodd y Bwrdd drafodaeth hir lle'r oedden nhw'n ystyried sut orau i gadw'r ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth heb golli golwg ar yr hyn roedd y gwasanaeth yn ei ddarparu.

Clôdd y Prif Weithredwr drwy ddweud fod y cynllun yn dal i fod yn waith ar y gweill. Byddai mwy o sesiynau Datblygu'r Bwrdd yn y dyfodol agos a fyddai'n caniatáu mwy o drafodaethau i danategu'r cynllun.

PENDERFYNWYD:

- (1) **Nodi'r gwelliannau a wnaed i'r IMTP 2015/16 (Blaenoriaethau Blwyddyn Un) (Mai 2015);**
- (2) **Nodi'r sefyllfa a'r gefnogaeth i'r IMTP 2015/16 (Blaenoriaethau Blwyddyn Un) gan Brif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwylans, Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys ac arweinydd Prif Weithredwyr GIG Cymru;**
- (3) **Cymeradwyo IMTP 2015/16 (Blaenoriaethau Blwyddyn Un) (Medi 2015 fersiwn 1.3) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Medi;**
- (4) **Nodi Cynnydd Cyflenwi Portffolio Newid 15/16;**
- (5) **Nodi'r camau o safbwynt adborth o'r gweithdai diweddar;**

- (6) Cytuno ar bwrpas sefydliadol yr ymarfer hwn oedd yn dilyn/ wedi'i gynnwys yn yr adendwm i'r papur hwn fel diffiniad gwaith;
- (7) Cytuno ar weledigaeth sefydliadol yr ymarfer oedd yn dilyn/ wedi'i gynnwys yn yr adendwm i'r papur hwn fel diffiniad gwaith;
- (8) Cytuno ar y blaenoriaethau allweddol fel pecyn gwaith fydd yn ffurfio'r IMTP i'r dyfodol oedd yn dilyn/ wedi'i gynnwys yn yr adendwm i'r papur hwn o gael trafodaethau pellach; a
- (9) Nodi'r prif gerrig milltir sy'n gysylltiedig â'r camau nesaf i ddatblygu a chytuno ar IMTP 2016/17.

59/15 CYNLLUNIO AR GYFER Y GAEAF

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Meddygol y cynllun i'r Bwrdd er gwybodaeth. Cyflwynodd grynodedb ar y trefniadau strategol a gweithredol oedd yn bodoli i sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn barod ar gyfer y gaeaf.

Codwyd y materion a mynegwyd y sylwadau canlynol gan yr Aelodau:

- O safbwynt asesiadau risg, byddai'r rhain yn cael eu hadolygu'n fwy trwyadl wrth i'r gaeaf agosáu.
- Roedd y tabl o egwyddorion strategol allweddol yn dangos efallai'r mwyafrif llethol fel gweithgareddau 'bob dydd' nid dim ond yn ystod y gaeaf ac roedd yn syndod i'w gweld o fewn y tabl.
- Mynegwyd pryderon difrifol am y Cynllun Parhad Busnes oedd eto heb ei gwblhau.

Dywedodd y Prif Weithredwr ei bod yn hanfodol i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod digon o adnoddau ar gael ar gyfer y gaeaf. O safbwynt y Cynllun Parhad Busnes, rhaid i'r rhain fod yn ddigonol i gynnal yr Ymddiriedolaeth drwy gydol y chwe mis nesaf. Rhaid cynnal trafodaethau pellach rhwng nawr a chyfnod y Nadolig i adolygu'r cynllun a'r pryderon a'r materion a godwyd o'i fewn ar gyfer y dyfodol.

PENDERFYNWYD:

- (1) Nodi'r diweddariad i'r paratodau cynllunio ar gyfer y gaeaf;
- (2) Cymeradwyo a chyhoeddi ar wefan allanol yr Ymddiriedolaeth Fframwaith Strategol y Gaeaf 2015/16. Dylid cynnal adolygiad parhaus o'r rhagdybiaethau a wnaed am effaith y trefniadau parhad busnes a fyddai'n ddigon cadarn i gyflawni'r amcanion fel cynllun;
- (3) Darparu diweddariad ar statws a sicrwydd y cynllun ar gyfer cyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolaeth;
- (4) Adlewyrchu'n ddigonol effaith posibl y gwasanaethau brys a diffyg gweithrediadau'r GIG o fewn y cynllun; a
- (5) Chynnal ffocws ar gyflenwi adnoddau digonol o safbwynt staffio a cherbydau yn ystod adolygu'r cynllun.

60/15 GWEITHREDU'R MODEL CLINIGOL NEWYDD

Diwygiwyd 01/02/2016

Tudalen 8

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Meddygol yr adroddiad a hefyd grynodedb ar y prif faterion isod:

- Datblygu gwaith Dangosyddion Clinigol
- Desg Glinigol – byddai angen ehangu ar hyn ar ryw adeg yn y dyfodol
- Wrth i'r model ddatblygu, byddai angen mwy o staff
- Roedd gwaith Cynllun Braenaru Parafeddyg yn datblygu'n dda

Cododd yr Aelodau'r materion canlynol:

- Cofrestr Risg - a oedd diweddariad ar y dechnoleg Dosbarthu gyda chymorth Cyfrifiadur (CAD) a chyfyngiadau? Eglurodd **BL** fod y CAD wedi'i brofi ac roedd yn ddigon cadarn i reoli'r newidiadau oedd wedi'u gosod yn eu lle. Mae cyfradd llwyddiant y system Dosbarthu Ymateb Sydyn ar gyfer Achosion Brys (F.R.E.D.) o 46% yn ymddangos yn isel. Eglurodd **BL** fod y system wedi'i dylunio i adnabod geiriau allweddol gan y galwr o fewn yr ychydig eiliadau cyntaf ac yna anfon ambiwlans ar fyrder ar y geiriau allweddol hynny, (er enghraifft, anymwybodol neu ddim yn anadlu). Nid oedd y ffigwr o 46% yn anghyffredin ac roedd yn unol â gwasanaethau ambiwlans eraill. Roedd y risg wedi'i liniaru drwy gyflwyno codau newydd ac roedd y sefyllfa'n cael ei monitro ar hyn o bryd.
- Dangosyddion Clinigol - mynegwyd pryder o safbwynt treiglo data ac ansawdd y data oedd yn cael eu casglu gan y pinnau digidol. Dywedodd **BL** fod ansawdd y data o'r pinnau digidol yn ddigon cadarn ac roedd y Tîm Archwilio Clinigol yn monitro unrhyw broblemau ar hyn o bryd. Dywedodd ymhellach y byddai adroddiadau'n dangos ansawdd y data gan y grŵp pinnau digidol yn cael eu cyflwyno'n nes ymlaen.

PENDERFYNWYD: nodi bod y camau a gymerwyd i weithredu'r model clinigol newydd ar 1 Hydref 2015 yn llwyddiannus.

61/15 ADRODDIAD ARIANNOL - MIS 5

Wrth gyflwyno'r papur, dywedodd y Gyfarwyddwraig Cyllid ac ICT bod diffyg o £1.838m oedd yn gyson gyda'r rhagolygon yn y cynllun senario.

Derbyniodd yr Aelodau grynodedb byr wedyn o'r manylion canlynol o fewn yr adroddiad:

- Cost salwch staff gweithredol – roedd hwn wedi gostwng oddi ar yr un cyfnod y llynedd
- Rhagolwg Diwedd Blwyddyn Crynodol fesul mis – tynnwyd sylw'r Bwrdd at graff newydd
- Cyfanswm arbedion rhagolwg diwedd blwyddyn - roedd hyn yn gyson gyda'r rhagolwg ac roedd yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni'n gyson
- Nid oedd unrhyw broblem gyda'r Cyfalaf

Croesawodd y Cadeirydd sylwadau gan yr Aelodau:

- Roedd y diffyg wedi cynyddu rhwng misoedd pedwar a phump, a ddylai hyn

achosi pryder i'r Bwrdd? Dywedodd **PR** fod hyn i'w ddisgwyl ac y byddai'n cyflymu eto yn ystod misoedd y gaeaf gan y byddai disgwyl i'r Ymddiriedolaeth ddarparu mwy o wasanaethau yn ystod y cyfnod hwnnw.

- Roedd yn rhaid i'r Ymddiriedolaeth fod yn sicr na fyddai'n mynd dros £4.4m, a phan fyddai'r Model Clinigol newydd yn weithredol, byddai effeithlonrwydd i bob pwrpas ar y gorwel.

PENDERFYNWYD: nodi'r sefyllfa ariannol fel y dangoswyd ar gyfer mis 5 a'r risgiau allweddol cysylltiedig.

62/15 EITEMAU CYDSYNIO

Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd darllen yr Eitemau Cydsynio a dywedodd wrth yr Aelodau i fod yn barod i fynegi unrhyw bryder i'r Bwrdd. Cyflwynwyd yr Eitemau Cydsynio canlynol:

- **Adroddiad Blynyddol Pryderon Dysgu a Gweithio i Wella**
- **Llythyr Pryderon Blynyddol yr Ombwdsmon**
- **Ateb i Ymateb y Comisiynydd Iaith Gymraeg i Adroddiad Blynyddol Cynllun Iaith Gymraeg 2014/15**
- **Cofnodion Pwyllgorau:**
 - **Archwilio - 16 Gorffennaf 2015**
 - **Cyllid ac Adnoddau - 25 Mehefin 2015**
 - **Ansawdd, Profiad Cleifion a Diogelwch - 10 Gorffennaf 2015**
 - **Cydnabyddiaeth - 18 Mehefin 2015**

PENDERFYNWYD: Nodi a chymeradwyo'r Eitemau Cydsynio.

PENDERFYNIAD I GYFARFOD MEWN SESIWN CAEEDIG

Penderfynwyd gwahardd cynrychiolwyr y wasg ac aelodau'r cyhoedd o weddill y cyfarfod oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod yn unol â gofynion Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960.

Gellir gweld adroddiadau'n ymwneud ag eitemau busnes yn y cofnodion hyn ar wefan yr Ymddiriedolaeth, www.ambulance.wales.nhs.uk